



**Cartrefi
Cymunedol
Cymru**
**Ein Ffocws ar
gyfer 2019-2022**

Gwireddu Gorwelion Tai

Cymru lle mae
cartref da yn hawl
sylfaenol i bawb.



2019-2022

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cynllun lefel uchel Cartrefi Cymunedol Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bydd yn cefnogi gwireddu ein gweledigaeth Gorpwlion Tai - Cymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb.

Amdanom ni

Ni yw'r corff aelodaeth ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru. Ein gwaith yw sicrhau bod y sector yn parhau i ffynnu ac yn barod ar gyfer y dyfodol. Rydym yn dylanwadu, cysylltu, cefnogi a hysbysu ar gyfer, ac ar ran ein haelodau fel y gallant barhau i fuddsoddi mewn cymunedau a newid bywydau.

CYMRU LLE MAE

CARTREF DA YN HAWL

SYLFAENOL I BAWB

- Ein Gweledigaeth



Ein Gwerthoedd

- Tryloyw

Rydym yn agored a hygyrch ym mhopeth a wnawn.

- Atebol

Rydym yn cyflawni ar ein hymrwymadau ac yn gyfrifol i'n haelodau a'n gilydd.

- Hyblyg

Rydym yn hyblyg ac yn addasu i newid.

- Cynhwysol

Rydym yn gwerthfawrogi ac yn cofleidio natur amrywiol ein haelodaeth a'n staff.

- Arloesol

Rydym yn mynd ati i ganfod ffyrdd newydd o ddarparu'r gwasanaethau gorau a allwn.

- Uchelgais

Rydym yn herio ein hunain a'n hamgylchedd i sicrhau'r canlyniadau gorau.

Ein Cenhadaeth

Y N W

Ein cenhadaeth yw galluogi cymdeithasau tai Cymru i fod yn wych.



YCH

↪ *Dyna chi!*

Ein Nod

Erbyn 2022

Byddwn yn...

cawn ein hystyried gan aelodau fel
corff aelodaeth tu hwnt o werthfawr
ac effeithlon.

Byddwn yn...

cawn ein hadnabod a'n gwerthfawrogi
gan randdeiliaid a defnyddiwn y llwyfan
hwn i gyflwyno'r achos dros gymdeithasau
tai yng Nghymru.

Byddwn yn...

manteisio ar awydd y sector i
wneud pethau'n wahanol.

Byddwn yn...

llais blaenllaw ar faterion tai
yng Nghymru.

Byddwn yn...

darparu gwasanaethau rhagorol i aelodau
sy'n ychwanegu gwerth a'i gwneud yn
haws i aelodau wneud eu gwaith

Byddwn yn...

sefydliad cynaliadwy yn ariannol.

Ein Blaenoriaethau Strategol

Dylanwadu ar amgylchedd gweithredu ein haelodau

Pam fod hyn yn bwysig?

Rydych yn sefydliadau annibynnol, dim-er-elw sy'n anelu i ddarparu tai fforddiadwy i ateb y galw ac sydd hefyd yn buddsoddi mewn cymunedau ac yn newid bywydau. Ein gwaith yw sicrhau fod hyn yn parhau. Mae amgylchedd

gweithredu ffafriol yn rhoi sicrwydd, yn gostwng risg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i wneud cartref da yn hawl sylfaenol i bawb yng Nghymru.

Byddwn yn...

Gwyllo'r gorwel i fod yn rhagweithiol wrth ddynodi materion a chyfleoedd, dylanwadu ar newid deddfwriaethol a llunio cyfeiriad polisi llywodraeth yn y dyfodol.

Rhagweithiol wrth feithrin perthynas gyda phob plaid wleidyddol yng Nghymru a San Steffan.

Comisiynu ymchwil gadarn i gryfhau ein gwaith lobio a dylanwadu.

Rhagweithiol wrth osod a dylanwadu ar agenda'r cyfryngau i gefnogi ein gwaith.

Cydweithio gyda'r partneriaid cywir i sicrhau'r canlyniadau gorau.

Yr hyn a welwch...

- Newidiadau polisi fydd yn golygu mwy o hyblygrwydd ar eich ffrydiau incwm i'ch cefnogi i ddarparu mwy o gartrefi.
- Cawn ein cydnabod fel sector sy'n cyflawni ac a gaiff ei werthfawrogi gan randdeiliaid a gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol.
- Bydd gan bob plaid wleidyddol well dealltwriaeth o'n gwaith a'r rôl werthfawr sydd gennym mewn cymunedau ar draws Cymru.
- Bydd ein gwaith lobio a dylanwadu yn amlwg a thryloyw.

Ein Blaenoriaethau Strategol

Dweud stori'r sector

Pam fod hyn yn bwysig?

Gydag etholiad yng Nghymru yn 2021, bydd dweud stori rymus yn bwysig os yw tai i barhau'n flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth. Bydd stori rymus hefyd yn denu staff ac aelodau bwrdd i'r sector, cynyddu ymwybyddiaeth y

cyhoedd o'r effaith y gall tai da ei gael a lleoli'r sector fel partner dibynadwy ac uchel ei barch.

Byddwn yn...

Arddangos effaith ehangach y sector, llunio'r naratif o amgylch y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer meysydd polisi cyhoeddus arall ac arddangos gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus.

Hyrwyddo tai fel dewis gyrfa.

Eich cefnogi i sicrhau llywodraethiant rhagorol.

Dylanwadu ar agenda'r cyfryngau a diogelu enw da y sector.

Yr hyn a welwch...

- Caiff ein cynigion rhagweithiol i helpu datrys yr argyfwng tai eu cynnwys ym manifestos pleidiau gwleidyddol.
- Bydd tai yn flaenoriaeth allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu nesaf a byddwn yn defnyddio ein gweledigaeth o 'Gymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb' i ddweud ein stori ar draws portffolios y llywodraeth.
- Ymgyrch yn rhoi sylw i fanteision a chyfleoedd gyrfa yn y sector yn denu mwy o bobl gyda'r sgiliau rydym eu hangen.
- Byddwn yn gweithio gyda chi i ddenu carfan amrywiol a deinamig o aelodau bwrdd a bydd ein 'Cynnig ar gyfer Aelodau Bwrdd' yn eu cefnogi i wneud eu gwaith yn fwy effeithlon.
- Caiff eich barn ei chynrychioli yn y cyfryngau cenedlaethol, gyda chefnogaeth i ddweud eich stori ar lefel leol.

Ein Blaenoriaethau Strategol

Darparu

Gwasanaethau

Ardderchog i Aelodau

Pam fod hyn yn bwysig?

Rydym yn bodoli i'ch cefnogi chi, ein haelodau gwyh. Mae angen i'n gwasanaethau fod yn berthnasol, ychwanegu gwerth a'ch cefnogi i wneud eich gwaith. Mae hefyd angen iddynt roi gwerth ardderchog am arian.

Mae ein gweithgaredd masnachol, sy'n cynnwys nawdd, arddangos, aelodaeth fasnachol a phartneriaethau yn ein galluogi i ymestyn eich ffi aelodaeth a gwneud hyd yn oed yn fwy. Mae hyn yn ffrwd incwm pwysig i ni a byddwn hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaethau ardderchog i'n partneriaid masnachol.

Byddwn yn...

Amlwg ar draws yr aelodaeth ac yn meithrin perthynas ystyrlon.

Canolbwyntio ar feysydd gwaith effaith uchel gydag amcanion mesuradwy.

Sicrhau ymgysylltu effeithlon a rheolaidd ar y materion sy'n bwysig i chi.

Darparu gwasanaethau ardderchog i gwsmeriaid i'n partneriaid masnachol presennol ac alinio gyda phartneriaid newydd lle mae budd i'r ddwy ochr a gwerth ychwanegol i'n haelodau.

Yr hyn a welwch...

- Mwy o'n staff - i'w gweld ledled Cymru.
- CCC gyda ffocws ar ganlyniadau gyda chyfathrebu rheolaidd am yr hyn a gyflawnwn ar eich rhan.
- Digwyddiadau blaengar i ysbrydoli a herio.
- Hyfforddiant ymatebol i'ch helpu i drin problemau sy'n codi.
- Cyfathrebu wedi'i dargedu yn defnyddio dull digidol yn gyntaf.
- Cynnyrch a gwasanaethau ychwanegol a chydweithio pellach gyda phartneriaid masnachol i'ch helpu i gyflawni eich nodau.

Ein Blaenoriaethau Strategol

Paratoi Aelodau ar gyfer y Dyfodol

Pam fod hyn yn bwysig?

Os ydym i gyflawni gweledigaeth o Gymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb, ni fydd busnes fel arfer yn ddigon. I fod yn addas ar gyfer y dyfodol mae angen i ni ganfod ffyrdd newydd o feddwl a ffyrdd newydd o weithio.

Rydych yn barod ar gyfer yr her a gwelsom awydd go iawn am gydweithio i sicrhau ein bod yn sector deinamig a blaengar.

Byddwn yn...

Gwyllo'r gorwel i ymchwilio sut olwg allai fod ar y dyfodol.

Ysgogi trafodaeth a rhoi her.

Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr

Yr hyn a welwch...

- Arweinyddiaeth syniadau seiliedig ar dystiolaeth am dueddiadau'r dyfodol fydd yn eich helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Creu gofod ar gyfer arloesi ac ymyrryd - lle'r ydym yn effeithlon wrth ysgogi adnoddau i ddatblygu syniadau newydd a'u troi'n gynnyrch a gwasanaethau addas ar gyfer y dyfodol.
- Digwyddiadau arwain syniadau a chydweithio wedi'i hwyluso gydag arbenigwyr ac ymyrwyr y diwydiant.
- Byddwn yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu pecyn cefnogaeth i dyfu eich arweinwyr eich hun.

Ein Blaenoriaethau Strategol

Rhedeg sefydliad gwyach i aelodau

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae creu sefydliad mwy dyfeisgar sy'n darparu gwasanaethau ardderchog i aelodau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon yn hollbwysig os ydym i gyflawni ei nodau strategol.

Yr hyn a welwch...

'Pobl a Diwylliant'

Sefydlu diwylliant perfformiad uchel o fewn timau ar draws CCC gyda chapasiti cynhenid i ddysgu a gwella.

Mesur ac adrodd ar ein heffeithlonrwydd ac adeiladu gwerthuso ym mhob darn o waith i sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus.

Sicrhau fod gweithgaredd dysgu a datblygu yn gysylltiedig â'n hamcanion busnes.

Gwella cyfathrebu mewnol a rhoi cyfleoedd i staff i fwydo i fyny ac i lawr y sefydliad.

Sicrhau fod gennym yr amgylchedd gwaith gorau ar gyfer anghenion staff.

Sicrhau fod gennym y telerau ac amodau cywir i alluogi CCC i ddenu, cadw a chymell staff.

Dathlu ein llwyddiannau.

Yr hyn a welwch...

'Seilwaith'

Sicrhau gwelliannau amlwg i'n rheolaeth perthynas cwsmeriaid a'n gwefan - gwella cofnodion aelodaeth, cyfathrebu, adroddiadau a chysylltiadau ar y we.

Gostwng ein heffaith ar yr amgylchedd tra'n gwella ymgysylltu ag aelodau drwy ddefnyddio technoleg yn well.

Moderneiddio ein darpariaeth a defnyddio technoleg i sicrhau arbedion a symleiddio prosesau presennol i wella profiad aelodau.

Yn hyn a welwch...

'Cyllid a Llywodraethiant'

Sicrhau fod CCC yn gynaliadwy yn ariannol, ac yn canolbwyntio ar gyflawni anghenion ein haelodau.

Datblygu diwylliant o fenter ac arloesi.

Sicrhau llywodraethiant da ac arweinyddiaeth gref.

Rhoi adroddiadau ar ein cynnydd...

Byddwn yn rhoi adroddiad ar gynnydd ar weithgaredd bob chwarter. Bydd yn cynnwys yr hyn a gyflawnwyd ar eich rhan ac yn edrych ymlaen i feysydd blaenoriaeth ar gyfer y chwarter dilynol.



Cadwch eich llygaid ar agor am...

Ein 'Adroddiadau Cynnydd Chwarterol'

chcymru.org.uk

Rydym angen eich help

Ni yw eich corff aelodaeth. Y
blaenoriaethau strategol yw'r meysydd
y gwnaethoch ddweud wrthym sy'n
bwysig i chi a rydym angen eich helpu i
gyflawni'r rhain.

Dylanwadu ar

Amgylchedd

Gweithredu ein

Haelodau

Rydym angen eich help i gefnogi a llunio ein gwaith dylanwadu - i roi mewnbwn ar gyfer ymgynghoriadau a dweud wrthym beth yw safbwynt eich sefydliad. Rydym angen data lleol i adeiladu darlun seiliedig ar dystiolaeth o'r materion sy'n wynebu'r sector.

Rydym angen i chi hidlo negeseuon allweddol lawr i wleidyddion a chynrychiolwyr etholedig lleol ac rydym angen ystod o lefarwyr cyfryngau o bob rhan o Gymru.

Dweud Stori'r

Sector

Ein cryfder yw'r gallu i siarad gydag un llais. Rydym angen eich cefnogaeth i hidlo ymgyrchoedd cenedlaethol lawr i wleidyddion a chynrychiolwyr etholedig fel y byddant yn deall yr effaith leol.

Rydym angen lleisiau ac astudiaethau achos go iawn i ddod â'n gwaith yn fyw.

Rydych wedi dweud wrthym eich bod eisiau ni fod yn fwy gweladwy. A oes cyfle i ni gael desg boeth yn eich sefydliad? Byddem wrth ein bodd cael gwahoddiad i ymweld â chynlluniau a phrosiectau. Bydd hyn yn ein helpu i ddweud eich stori am yr hyn sy'n gwneud eich sefydliad yn wych!

Darparu gwasanaethau

ardderchog i Aelodau

Mae gwasanaeth ardderchog i aelodau'n golygu cyflawni a rhagori ar ddisgwyliadau.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni wybod pwy yw pwy yn eich sefydliad fel y gallwn ddarparu cyfathrebiadau amserol ac wedi'u targedu ar y pethau sy'n bwysig iddynt.

Mae gennym gynnig eang i aelodau - a yw'ch staff yn gwybod am y gwaith a wnawn ar eich rhan a sut y gallant fanteisio o [aelodaeth](#)?

Rydym angen eich help i lunio ein digwyddiadau a chysiau hyfforddiant fel eu bod yn diwallu eich anghenion.

Mae ein grwpiau cyflenwi strategol yn rhan allweddol o'n cynnig i aelodau. Maent am ddim i aelodau eu mynychu fel rhan o'ch aelodaeth. Rydym angen lleoliadau cyfleus i gynnal y cyfarfodydd hyn - yn ogystal â bod yn gyfle gwych i ddangos eich sefydliadau, mae hefyd yn golygu ein bod yn cael safbwynt ehangach ar drafodaethau'r sector.

Caiff y gwargedion a wnawn o'n gweithgaredd masnachol eu buddsoddi'n ôl i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr i aelodau. Mae'n ein galluogi i lobio, dweud stori'r sector a sicrhau eich bod yn barod ar gyfer y dyfodol. Wrth i ni barhau i dyfu'r maes hwn o fusnes, dywedwch wrthym am y sefydliadau masnachol yr ydych yn gweithio gyda nhw a fedrai fanteisio o gael eu cysylltu gyda'r sector ehangach.

Gwnawn ni'r gweddill!

Nodiadau:

I gael mwy o
wybodaeth:

Cartrefi Cymunedol Cymru

www.chcymru.org.uk

enquiries@chcymru.org.uk